



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

CALON

TÂN

MEHEFIN
2024

HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU

TUDALEN 14



PRIF SWYDDOG TÂN YN DERBYN MEDAL GWASANAETH TÂN Y BRENIN

TUDALEN 3



Y GWASANAETH YN
ACHUB ANIFEILIAID

TUDALEN 11

EISTEDDFOD YR URDD
2024 YM MEIFOD

TUDALEN 16

PRAWF PWYNT MYNEDIAD
YN HWLFFORDD

TUDALEN 18

CYNNWYS

ROGER THOMAS - MEDAL GWASANAETH TÂN Y BRENIN	3
CYFATHREBU'R RHANBARTHAU	4
AILGYLCHU BATRIS	7
CWRDD A'R TIM - YSTADAU	8
ACHUB ANIFEILIAID	11
DIGWYDDIADAU	12
HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU	14
EISTEDDFOD YR URDD 2024	16
PRAWF PWYNT MYNEDIAD	18
CHWARAEON A CHYMDEITHASU	26
SWYDDI	28

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwdd yn brysur y mis diwethaf:



ROGER THOMAS

PRIF SWYDDOG TÂN YN DERBYN MEDAL GWASANAETH TÂN Y BRENIN

Mae Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Roger Thomas, wedi'i gydnabod fel rhan o restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin am ei ymrwymiad i'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Cyhoeddwyd ar 15 Mehefin 2024, y bydd y Prif Swyddog Tân Thomas yn derbyn Medal Gwasanaeth Tân y Brenin sy'n cael ei ddyfarnu am wasanaeth nodedig.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân Thomas;

"Rwy'n falch iawn o dderbyn y wobr anrhydeddus hon. Rwy'n cydnabod bod y wobr hon yn dyst i'r bobl anhygoel sy'n gweithio i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru - ein staff gweithredol sy'n peryglu eu bywydau er mwyn sicrhau diogelwch eraill, ein staff yn yr Ystafell Reoli sy'n derbyn galwadau 999 ac yn trefnu adnoddau, swyddogion atal ac amddiffyn sy'n lleihau risg yn

ein cymunedau a'n staff corfforaethol sy'n cefnogi ein swyddogaethau craidd. Rwy'n hynod falch o weithio i sefydliad sydd mor uchel ei barch.

Hoffwn gydnabod fy nheulu hefyd. Maen nhw hefyd wedi gwneud aberth sylweddol i fy nghfnogi i'n bersonol ac yn broffesiynol."

Gan ddechrau ei yrfa gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub ym 1996, mae Roger wedi treulio ei yrfa gyfan gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, gan ddod yn Brif Swyddog Tân ym mis Ebrill 2022. Mae wedi mwynhau gyrfa hynod amrywiol gyda'r Gwasanaeth Tân ac Achub, ar ôl gweithio drwy'r rhengoedd o fod yn Ddiffoddwr Tân i nifer o rolau goruchwyllo a rolau rheolwr canol, gan gynnwys secondiad i weithio i Lywodraeth Cymru yn 2007/8. Ymunodd â'r Tîm Arwain Gweithredol fel Rheolwr Ardal yn 2014 ac yna mewn rolau Rheoli gyda'r Frigâd o 2017 ymlaen.

Mae cydnabyddiaeth y Prif Swyddog Tân Thomas ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin nid yn unig yn dathlu ei gyflawniadau personol ond hefyd yn tanlinellu ymdrechion ar y cyd pob aelod o dîm Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Wrth iddo barhau i arwain gyda rhagoriaeth, mae'r Gwasanaeth yn edrych ymlaen at wella diogelwch a lles y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ymhellach.



SEREMONI CWBLHAU HYFFORDDIANT CWRS FFENICS

Ddydd Iau, 6 Mehefin rhoddodd disgyblion o Ysgol y Strade eu sgiliau newydd ar brawf mewn Seremoni Cwblhau Hyfforddiant o flaen cynulleidfa.

Bu'r disgyblion o Ysgol y Strade ar Gwrs Ffenics wythnos o hyd yng Ngorsaf Dân Llanelli. Ar y cwrs,

bu'r plant yn dysgu am beryglon, am risgiau, ac am fesurau rheoli, a hynny er mwyn eu cadw eu hunain ac eraill yn ddiogel. Buon nhw hefyd yn defnyddio ystod o wahanol offer diffodd tân, fel pibellau, ysgolion a llawer mwy.

Yn y Seremoni, cafodd Rhieni/Gwarcheidwaid a staff dysgu o'r ysgol arddangosiad o sgiliau newydd y grŵp, a chyflwynwyd tystysgrifau i'r disgyblion gan y Dirprwy Bennaeth Diogelwch Cymunedol, Aled Griffith.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran a diolch yn fawr iawn i'r criw yng Ngorsaf Dân Llanelli am eu holl help yn ystod yr wythnos.



DIWRNODAU DARGANFOD I DDIFFODDWYR TÂN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

Mae criwiau o fewn Rhanbarth Gogleddol y Gwasanaeth, sy'n cynnwys siroedd Ceredigion a Phowys, wedi cynnal Diwrnodau Darganfod i Ddiffoddwyr Tân yn ddiweddar er mwyn dangos beth mae'r rôl yn ei olygu ar gyfer egin Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad.

Ddydd Sadwrn, 15 Mehefin, cynhaliodd y criw yng Ngorsaf Dân Y Trallwng Ddiwrnod Darganfod, a chynhaliodd criw Gorsaf Dân Y Drenewydd ei diwrnod nhw ddydd Mercher, 19 Mehefin. Yn ystod y ddau ddiwrnod, cafodd y rhai oedd yn bresennol gyfle i wisgo cit diffodd tân llawn, cwrdd â rhai o'r Diffoddwyr Tân Ar Alwad a chael taith o amgylch y Gorsafydd Tân. Roedden nhw hefyd yn gallu cymryd rhan yn rhai o'r profion mynediad gofynnol, fel gosod cyfarpar hydrant dŵr at ei gilydd a threalon ffitrwydd a chryfder.

Nod Diwrnodau Darganfod i Ddiffoddwyr Tân y Gwasanaeth yw rhoi mwy o wybodaeth i'r rhai sydd â diddordeb mewn dysgu mwy am ddod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad am yr hyn y mae'r rôl yn ei olygu, yn ogystal ag agweddau amrywiol y broses recriwtio a'r llwybrau gyrfa.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn recriwtio am Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad yn ein holl Orsafoedd Tân Ar Alwad ar hyn o bryd. Mae Diffoddwyr Tân Ar Alwad yn rhan hanfodol o'r Gwasanaeth a'u cymunedau, ac mae 700 o Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad y Gwasanaeth yn criwio 75% o Orsafoedd Tân Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Am fwy o wybodaeth am sut i ddod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad, ewch i wefan.y Gwasanaeth.





GERDDI BYWYD GWYLLT NEWYDD CADWCH GYMRU'N DACLUS

Bydd y [Great Big Green Week](#), y digwyddiad mwyaf erioed yn y DU i ddathlu gweithredu cymunedol yn erbyn newid hinsawdd ac i ddiogelu natur, yn cael ei chynnal rhwng 8 ac 16 Mehefin.

I ddathlu, fe wnaeth Gorsafoedd Tân [Blaendulais](#), [Glyn-nedd](#) a [Phort Talbot](#) wahodd disgyblion o'u hysgolion cynradd lleol i dreulio diwrnod yn helpu'r

criwiau i blannu blodau yn y gerddi newydd sydd wedi cael eu hariannu gan [Cadwch Gymru'n Daclus](#). Daeth [Tai Tarian](#) a [Joyner Group](#) draw i orsaf Blaendulais hefyd er mwyn helpu i adeiladu'r cafnau plannu.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi bod yn cynnig pecynnau garddio rhad ac am ddim i gymunedau ledled y wlad er mwyn iddynt ailwampio a thrawsnewid eu hardaloedd lleol. Y nod yw trawsnewid ardaloedd blêr yn erddi sydd o fudd i fywyd gwylt ac i'r ardal leol.

Da iawn bawb a fu'n brysur, rydym yn edrych ymlaen at weld y gerddi yn eu blodau!



AILGYLCHU BATRIS

AILGYLCHU BATRIS YN DDIOGEL

Yn ddiweddar, cafodd criwiau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru o Orsafoedd Tân y Drenewydd a Llanidloes eu galw i ddigwyddiad ar hyd Ffordd Osgoi'r Drenewydd.

Ymatebodd y criwiau i LGV oedd yn cynnwys tua 13 tunnell o ddeunydd ailgylchu cymysg a oedd yn mudlosgi mewn ardaloedd ac â darlleniadau tymheredd uchel. Credir bod y tân hwn wedi'i achosi gan fêps untro na chawsant eu gwaredu'n gywir. Daethpwyd o hyd i sawl fêp untro yng nghynnwys y lori, ac ymddengys eu bod wedi cael eu malu a'u difrodi, a fyddai wedi achosi iddynt wreichioni a chynnau gweddill y sbwriel o fewn y lori.

Mae ymchwil gan Gyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân (NFCC) a Recycle Your Electricals wedi canfod bod nifer y tanau batris mewn lorïau bin ac mewn safleoedd gwastraff yn y DU wedi cyrraedd ei lefel uchaf erioed, gyda chynnydd o 71% o 700 yn 2022 i dros 1,200 yn y flwyddyn diwethaf.

Gyda chynnydd yn nifer yr eitemau trydanol cludadwy sy'n cynnwys batris ionau lithiwm, daw risg tân sylweddol os cânt eu taflu i finiau sbwriel yn hytrach na'u hailgylchu. Nid yn unig y mae tanau batris yn peryglu bywydau, ond gallant hefyd achosi risgiau difrifol i'r amgylchedd ac i iechyd.

Am fwy o wybodaeth am sut i ailgylchu batris yn gywir, ewch i [wefan Recycle Your Electricals](#). I ddod o hyd i'ch cyfleuster ailgylchu agosaf, ewch i [wefan Cymru yn Ailgylchu](#).



Cwrdd a'r Tim



ADRAN YSTADAU

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru'n (GTACGC) cyflogi dros 1,300 aelod o staff sy'n darparu ymateb brys, gwybodaeth am ddiogelwch y cyhoedd, rhaglenni atal a diogelu a mwy i tua 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Mae'r tîm ystadau yn gyfrifol am sicrhau bod ystad y Gwasanaeth Tân yn addas i'r diben ac ar gael ar gyfer dyletswyddau gweithredol. Mae cyfrifoldebau'r tîm yn amrywio o brosiectau adeiladu mawr, megis caffael ac ailddatblygu cyfleuster newydd Fflyd, Peirianeg a Logisteg y Gwasanaeth yn Dafen, Llanelli, i gynnal systemau goleuadau, gwresogi a diogelwch a gwneud gwaith cynnal a chadw adweithiol.

Maent yn dîm amrywiol o 10, sydd wastad yn hapus i helpu a rhoi cyngor - gallwch ddod o hyd iddynt yn eu swyddfa yn y Pencadlys neu ar hyd a lled ardal y Gwasanaeth!




Huw Davies
Pennaeth Ystadau

Ymunais â Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ym mis Medi 2019, ac rwy'n gyfrifol am waith cynnal a chadw adweithiol ac wedi'i gynllunio, mân waith a phrosiectau cyfalaf.

Dechreuais fy ngyrfa fel trydanwr ar gyfer y busnes teuluol. Rwyf wedi gweithio yn y sectorau iechyd ac addysg lle dysgais y systemau amrywiol sy'n cefnogi ystod o gyfleusterau. Rwy'n berchen ar sawl beic modur ac yn mwynhau teithio Ewrop i ymweld â safleoedd hanesyddol y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd.

Yn ddiweddar, ymunais â'r criw Ymladdwyr Tân Ar Alwad yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin lle gallaf brofi ystod enfawr o alluoedd, proffesiynoldeb ac ymroddiad yn uniongyrchol.



Alex Rowlands
Dirprwy Bennaeth Ystadau

Alex yw fy enw i, a fi yw'r Dirprwy Bennaeth Ystadau sy'n cefnogi'r Pennaeth Ystadau a'r tîm i sicrhau bod portffolio eiddo'r Gwasanaeth yn addas at y diben i gefnogi'r Gwasanaeth Tân ac Achub.

Rwy'n delio â rheoli adeiladau gweithredol a gweinyddol ac yn cynorthwyo gyda rheolaeth gyllidebol prosiectau, yn ogystal â sicrhau ansawdd prosiectau a gwasanaethau. Cynnal astudiaethau dichonoldeb o waith a phrosiectau cyfalaf mawr posibl a datblygu dogfennaeth i'w chyflwyno. Rheoli cydymffurfiaeth o fewn rheoli eiddo a chydlynio materion cyfreithiol sy'n ymwneud â'r Ystâd.

Pan nad wyf yn yr Adran Ystadau rwy'n mwynhau'r awyr agored gyda fy nheulu.




Rob Thomas
Rheolwr Prosiectau Cyfalaf Adran Ystadau

Shwd mae! Robert ydw i a fi yw Rheolwr Prosiectau Cyfalaf Adran Ystadau'r gwasanaeth tân. Rydw i wedi bod yn y swydd hon ers bron i 3 blynedd - on'd yw amser yn hedfan pan fyddwch chi'n cael hwyll!

Fi sy'n gyfrifol am ddatblygu a chyflawni prosiectau cyfalaf o sefydlu'r briff cychwynnol gyda'r cleient "mewnol" drwy'r cyfnod adeiladu i'r cwblhau ymarferol a'r cam cyfrifon terfynol. Rydw i hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Rheolwr Cynnal a Chadw ac yn goruchwylio'r mân waith a'r rhaglen waith Cynnal a Chadw Ataliol wedi'i Gynllunio.

Y tu allan i'r gwaith rwy'n mwynhau treulio amser gyda'r teulu, gwersylla, pysgota, a mynd â'n ci labrador du 'Lola' am dro




Susan Fallon

Cydlynnydd Swyddfa a Phrosiectau yr Adran Ystadau

Helo, Sue ydw i ac rydw i wedi bod yn gweithio i'r Gwasanaeth ers 2022. Rwy'n gydlynnydd yn yr adran Ystadau ac mae fy rôl yn cynnwys cefnogi prosiectau cyfalaf a mân waith. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys yr uned CFBT newydd yn Earlswood, gwaith parhaus ar y tŵr ymarfer, a gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan, yn ogystal â rhywfaint o'r mân waith cynnal a chadw hanfodol sydd ar y gweill ar draws yr ystâd.

Gallwch ddod o hyd i mi ym Mhencadlys Caerfyrddin, yn sicrhau bod y dogfennau sy'n ymwneud â'r amrywiaeth eang o dasgau cynnal a chadw y mae'r Adran Ystadau yn eu rheoli yn cael eu trin yn effeithlon ac yn gywir, ac yn gweithio ar y Ddesg Gymorth, yn delio â thocynnau sy'n cyrraedd o bob un o'n safleoedd.



GWEDDILL O'R TÎM YSTADAU

Ronald Goldsbury

Swyddog Cyfleusterau Ystadau

Gregory Hughes

Technegydd Cynnal a Chadw Ystadau

Graham Jones

Technegydd Cynnal a Chadw Ystadau

Ian Phillips

Technegydd Cynnal a Chadw Ystadau

Kelsey Tiffin

Cydgysylltydd Contractau a Pherfformiad Ystadau

James Thomas

Swyddog Cyfleusterau Ystadau

Phillip Lees-Griffiths

Swyddog Cyfleusterau Ystadau

ACHUB ANIFEILIAID

CRIW GORSAF DÂN TREFORYS YN HELPŪ I ACHUB BRÂN

Mae **RSPCA** wedi ailadrodd eu rhybudd ynghylch y peryglon y mae bagiau plastig a sbwriel yn eu hachosi i fywyd gwylt, yn dilyn digwyddiad lle cafodd brân ei dal ar erial.

Ddydd Sadwrn, Mehefin 1, galwyd criw Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) o Orsaf Dân Treforys i gynorthwyo i achub brân a oedd yn sownd ar erial adeilad teras deulawr. Roedd coes yr aderyn wedi mynd yn sownd mewn bag plastig ar yr erial a defnyddiodd criwiau GTACGC beiriant cyrraedd yn uchel i ryddhau'r aderyn.

Yna trosglwyddwyd y frân i Swyddog Achub Anifeiliaid yr RSPCA, Ellie West, i'w hasesu ac i ofalu amdani.

"Roedd y frân yma wirioneddol yn sownd ac yn amlwg mewn trallod," meddai Ellie. "Rydym yn ddiolchgar iawn i'r Gwasanaeth Tân ac Achub am ddod ac am ddefnyddio eu hoffer arbenigol i gyrraedd yr aderyn ar do adeilad deulawr."



DIFFODDWYR TÂN ABERHONDDU YN ACHUB OEN

Ddydd Mercher, Mehefin 19eg, bu'r criw o Orsaf Dân Aberhonddu yn achub oen oedd wedi mynd yn sownd mewn ffos 6 troedfedd o ddyfnder yn Llanfaes, Aberhonddu.

Roedd yn rhaid i aelodau'r criw cael pen ffordd ar lethrau serth yn ofalus, yn ogystal â llystyfiant oedd wedi gordyfu roedd angen ei dorri'n ôl gan ddefnyddio llifiau llaw i gael mynediad i'r oen. Gan ddangos eu hyfforddiant a sgiliau achub anifeiliaid, defnyddiodd aelodau'r criw ysgol ymestynnol i gyrraedd ac i achub yr oen yn llwyddiannus a'n ddiogel, a'i dychwelyd i'r ffermwr.



DIGWYDDIADAU

DIWRNOD AGORED PONTARDDULAIS - LLWYDDIANT MAWR!

Ddydd Gwener, 31 Mai, cynhaliodd Gorsaf Dân Pontarddulais eu Diwrnod Agored, gan gynnig cyfle gwych i'r cyhoedd ymweld â'u gorsaf leol, cwrrd â'r criw a chymryd rhan mewn diwrnod llawn gweithgareddau.

Roedd y Diwrnod Agored yn un prysur ar y naw, gydag amrywiaeth o adloniant a oedd yn cynnwys DJ lleol, 'Geraint the Snakeman' a'i drychfilod, stondinau cacennau, tatŵs glityr, reidiau ffair a llawer mwy!

Yn ystod y dydd, cynhaliodd criw'r orsaf arddangosiadau byw gan gynnwys senario Gwrthdrawiad Traffig Ffyrdd (RTC) ac arddangosiad o dân sosban sglodion, â'r dyrfa'n gwyllo'n fanwl, gan rannu negeseuon diogelwch pwysig. Daeth y diwrnod i ben gyda Ras Hwyaidd Gorsaf Pontarddulais, oedd yn hynod boblogaidd!

Cynhaliwyd y Diwrnod Agored er cof am Stuart Richards, aelod o gymuned Pontarddulais a chyfaill i lawer yng Ngorsaf Pontarddulais. Cymerodd Stuart ei fywyd ei hun yn ddiweddar, ac roedd y Criw eisiau codi arian er cof am Stuart ar gyfer [Sefydliad Jac Lewis](#) - elusen leol ym maes iechyd meddwl dynion sydd wedi cefnogi teulu Stuart ar yr adeg dorcalonnus hon.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth i Ddiwrnod Agored Pontarddulais a diolch yn fawr i'r criw a wnaeth y diwrnod yn bosibl.

Cododd y Diwrnod Agored bron i £800 i gyd, a fydd yn cael ei rannu rhwng [Elusen y Diffoddwyr Tân](#) a [Sefydliad Jac Lewis](#).

Diolch i bawb a gymerodd ran, a diolch yn arbennig i gymuned wych Pontarddulais am eu cefnogaeth a'u brwdfrydedd anhygoel.



DIGWYDDIADAU CYFFROUS Y DYFODOL!



Yn amrywio o ddiwrnodau agored llawn gweithgareddau i olchi ceir a diwrnodau profiad, mae rhywbeth at ddant pawb

[11 Gorffennaf - Diwrnod Profiad Hwlfordd](#)

[13 Gorffennaf - Diwrnod Agored Port Talbot](#)

[20 Gorffennaf - Diwrnod Recriwtio Rhydaman](#)

[31 Gorffennaf - Diwrnod Agored Doc Penfro](#)

[10 Awst - Diwrnod Agored Castell-nedd](#)

[17 Awst - Diwrnod Recriwtio Rhydaman](#)

[23 Awst - Biker Down Cymru Llandrindod](#)

[28 Awst - Biker Down Cymru Rhydaman](#)

[7 Medi - Diwrnod Agored Hwlfordd](#)

[20 Medi - Biker Down Cymru Llandrindod](#)

Mae yna groeso cynnes i bawb yn ein digwyddiadau cymunedol, gan gynnig cyfle gwych i chi gysylltu â'ch diffoddwyr tân lleol a chefnogi'r digwyddiadau a arweinir gan y gorsafodded.

Nodwch y dyddiadau yn eich calendrau a chadwch olwg ar ein tudalennau ar y cyfryngau cymdeithasol i gael y newyddion diweddaraf a manylion am y digwyddiadau.

Peidiwch da chi â cholli allan ar y cyffro - dilynwch ni ar y cyfryngau cymdeithasol a gwahoddwch eich ffrindiau a'ch teulu.

Dilynwch ni ar



HER DIFFODDWYR TÂN CYMRU 2024

Ar Fehefin 1, ymgasglodd Diffoddwyr Tân o bob rhan o'r Deyrnas Unedig ym Marina Abertawe i gymryd rhan yn [Her Diffoddwyr Tân Cymru](#), sy'n rhan o ras ranbarthol [Her Diffoddwyr Tân Prydain](#).

Mae Her Diffoddwyr Tân Cymru yn cael ei threfnu gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC), ac mae'n helpu i godi arian pwysig ar gyfer [Elusen y Diffoddwyr Tân](#), sy'n cefnogi lles meddyliol ac iechyd corfforol yr holl aelodau o gymuned diffoddwyr tân y DU sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol.


Cynhaliwyd y digwyddiad, a oedd wedi gwerthu allan mewn 8 awr, sef yr amser cyflymaf erioed,

mewn lleoliad newydd eleni, sef Sgwâr Dylan Thomas, Marina Abertawe. Roedd y Sgwâr yn llawn o wylwyr o'r dechrau i'r diwedd trwy gydol y dydd. Yn ffodus, roedd yr haul yn tywynnu, a oedd yn ei gwneud yn wych i wylwyr ond hefyd yn llawer mwy anodd i'r cystadleuwyr.

Ochr yn ochr â'r heriau i ddiffoddwyr tân, cynhaliodd GTACGC 'Bentref Diogelwch Cymunedol' lle gallai aelodau'r cyhoedd gael mynediad i gyngor a gwybodaeth diogelwch am ddim gan ein Tîm Diogelwch Cymunedol yn ogystal â chan amrywiaeth o sefydliadau partneriaeth.

Dywedodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas:

"Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiad ac a fu'n cymryd rhan i wneud Her Diffoddwyr Tân Cymru yn llwyddiant ysgubol!"



EISTEDDFOD YR URDD 2024

Roedd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn Eisteddfod yr Urdd a gafodd ei chynnal ym Meifod ym Mhowys eleni rhwng 27 Mai a 1 Mehefin.

Gŵyl ieuentid Gymraeg flynyddol yw [Eisteddfod yr Urdd](#) sy'n llawn cerddoriaeth, llenyddiaeth a chelfyddydau perfformio ac mae'n cael ei threfnu gan [Urdd Gobaith Cymru](#).


Roedd ein Tîm Diogelwch Cymunedol wedi ei leoli ar stondin ger mynedfa'r Eisteddfod gan gynnig cyngor a gwybodaeth diogelwch rhad ac am ddim i'r cyhoedd yn ogystal â'r cyfle iddyn nhw gofrestru ar

gyfer archwiliad diogelwch tân yn y cartref rhad ac am ddim.

Roedd digon o weithgareddau hwyliog i blant eu gwneud, gan gynnwys rhoi cynnig ar wisgo cit diffoddwyr tân a chymryd rhan yn ein cystadleuaeth 'chwilio am y peryglon' i geisio ennill set diffoddwyr tân Lego. Daeth Sbarc, masgot y Gwasanaeth i'r Eisteddfod i gynnig cyngor diogelwch ac roedd cyfleoedd gwych i dynnu lluniau gydag aelodau'r cyhoedd.

Hyd yn oed gyda chymylau llwyd uwchben ac amodau mwdlyd, roedd hi'n wythnos lwyddiannus gydag awyrgylch bywiog o'r dechrau i'r diwedd.

Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn yr ŵyl ac rydyn ni'n edrych ymlaen at [Eisteddfod yr Urdd 2025](#) ym Margam, Castell-nedd Port Talbot!



PRAWF PWYNT MYNEDIAD



Dywedodd yr Arweinydd Cyflenwi Hyfforddiant ar ddiwrnod y Prawf Pwynt Mynediad, sef y Rheolwr Gorsaf Wayne Jarrett:

"Dewch i gael profiad o rôl Diffoddwr Tân wrth fynychu ein Profion Safonol Pwynt Mynediad (POEST). Mae angen cryfder corfforol a meddyliol i gwblhau cyfres o dasgau sy'n efelychu diwrnod arferol yn y Gwasanaeth Tân, yn amrywio o ddringo ysgolion i gropian drwy fannau cyfyng, achub rhywun sydd wedi'i anafu, codi, a chydodod a chario offer - a hyn oll yn gwisgo Cit Tân. Dewch i roi tro arni - efallai y byddwch yn mwynhau!"

Yn dilyn tystlythyrau llwyddiannus a chwblhau'r profion uchod, bydd ymgeiswyr yn cael cynnig penodiad yn Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a bydd gofyn iddynt fynychu Cwrs Recriwtiaid Cychwynnol.



PRAWF PWYNT MYNEDIAD AR ALWAD

Ddydd Llun 24 Mehefin gwahoddwyd ymgeiswyr i Orsaf Hwlfordd i wneud eu Prawf Pwynt Mynediad i ymuno fel Diffoddwyr Tân Ar Alwad.

Cyn y prawf, roedd ymgeiswyr wedi llenwi ffurflen gais, wedi cwblhau asesiad optometrïg ac wedi cael cyfarfod cychwynnol i drafod ymuno â'r Gwasanaeth fel Diffoddwr Tân ar alwad.


Dechreuodd y diwrnod gydag asesiad ffitrwydd, a oedd yn golygu gwneud prawf melin draed Caer, sef prawf cerdded 12 munud o hyd, cynyddol anodd, ar

felin draed i asesu a allant gyrraedd y safon ofynnol a argymhellir ar gyfer gallu aerobig.

Yna gofynnwyd i ymgeiswyr gymryd rhan yn yr asesiad corfforol a oedd yn cynnwys symud unigolyn wedi'i anafu, dringo ysgol, codi ysgol, prawf man caeedig, gosod cyfarpar, ac yn olaf cario cyfarpar.

Oes gennych chi'r hyn sydd ei angen?

Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn bod yn Ddiffoddwr Tân Ar Alwad, gallwch gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan.



DEWCH YN AELOD O GLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC HEDDIW!

Mae gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) ei Glwb Chwaraeon a Chymdeithasol ei hun. Os ydych chi'n aelod presennol o'r Gwasanaeth neu wedi ymddeol ohono, mae croeso i chi ymuno.

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol yn llwyfan ar gyfer cadw'n heini, cymdeithasu a chael hwyl. Ar hyn o bryd mae'n cynnwys amrywiaeth o adrannau y gallwch ymuno â nhw, gan gynnwys:



ROWNDERI ROUNDERS



CLWB CRICED CRICKET CLUB



CLWB BOWLIO BOWLS CLUB



CLWB BEICIO CYCLING CLUB



CLWB PYSGOTA PLY FLY FISHING CLUB



CLWB PÊL DROED FOOTBALL CLUB



CLWB GOLFF GOLF CLUB



FFOCWS CHWARAEON MENYWOD FEMALE SPORTS FOCUS



CLWB RYGBI RUGBY CLUB



CLWB TRIATHLON TRIATHLON CLUB



CLWB FFITRWYDD FITNESS CLUB

Dyma'r logos swyddogol ar gyfer clybiau Chwaraeon a Chymdeithasol - am unrhyw ymholiadau logo cysylltwch â'n tîm graffeg

Rydym yn hollol gefnogol o ddechrau adrannau newydd, felly os nad ydych yn gweld camp neu weithgaredd cymdeithasol yr ydych yn ei fwynhau, beth am gysylltu â ni, a dechrau eich adran eich hun?

Dewch yn rhan o'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol am ddim ond £2 y mis a chynorthwyo i gynnal ein holl adrannau.

Am fwy o wybodaeth am sut i ymuno, e-bostiwch Steven Philpott - s.philpott@mawwfire.gov.uk



FEL RHAN O'N CIPOLWG MISOL AR GLYBIAU CHWARAEON A CHYMDEITHASOL GTACGC, PYSGOTA Â PHLU SY'N DAL EIN SYLW Y MIS



Yr Adran Pysgota â Phlu yw un o'r adrannau chwaraeon sydd wedi bodoli hiraf yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC). Mae wedi ei sefydlu ers dros 45 mlynedd, a chanddi aelodau o'r Gwasanaeth sydd wedi ymddeol ac sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd, ac mae'r Adran wedi cynrychioli GTACGC yng Ngemau Rhyngwladol Fire Sport UK bob blwyddyn ers ei sefydlu, ac wedi mwynhau cryn lwyddiant gan ennill y pum mlynedd diwethaf yn olynol!

Cynhaliwyd y digwyddiad eleni yng Nghronfa Ddŵr Grafham, Caergrawnt, gyda Phil Hooper a Hugh Bryant (aelodau Adran GTACGC) yn fuddugol gan rwydo 12 pysgodyn er mwyn sicrhau buddugoliaeth! Phil Hooper oedd enillydd unigol cyffredinol y digwyddiad - gan lyncu'r clod i gyd i GTACGC y diwrnod hwnnw!

Mae rhai o aelodau'r Adran wedi cynrychioli Cymru ar lefel ryngwladol hefyd. Y llynedd fe aeth Jason Hucknall i Gronfa Ddŵr Draycote, Swydd Warwick a Nigel Worvell i Lyn Menteith yn yr Alban. Mae'r adran yn dymuno pob lwc i Nigel ar gyfer mis Medi, ac yntau wedi cymhwyso'n llwyddiannus i gynrychioli Cymru eto, gartref ar Lyn Clywedog lle bydd yn ennill ei 4ydd cap i Gymru, amdani Nigel!

Mae gan bysgota lawer o fanteision ac mae'n cael ei gydnabod am ei allu i leihau straen, lleddfu symptomau iselder, a hybu lles meddyliol yn gyffredinol. Gellir dod o hyd i gyngor ac arweiniad ar fanteision pysgota yn Why Fishing? - Tackling Minds a chyda hyn mewn golwg, rydym yn cynnal cystadleuaeth yn Llyn Clywedog Ddydd Sadwrn, 24 Awst 2024 yn erbyn y Llynges Frenhinol. Os hoffai unrhyw un fod yn bresennol, cysylltwch â Nigel Worvell drwy e-bost n.worvell@tancgc.llyw.uk am fwy o fanylion.



Gallwch ymuno ag Adran Bysgota GTACGC HEDDIW!

Ar agor i holl weithwyr y Gwasanaeth gan gynnwys gwirfoddolwyr, gweithwyr amser llawn, gweithwyr ar alwad, staff cymorth ac aelodau sydd wedi ymddeol. Cysylltwch ag ysgrifennydd y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, Steven Philpott ar s.philpott@tancgc.llyw.uk i gael mwy o wybodaeth.



GWEITHIO GYDA NI!

Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Ddiffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL >

BUDDION

- Cyfraddau cyflog cystadleuol
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol
- Gwyliau Blynyddol hael - 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

A LLAWER MWY!



AR ALWAD
Recriwtio Diffoddwyr Tân
ON CALL
Firefighter Recruitment

DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?
Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!





Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

#MwyNaDimOndTanau
#MoreThanJustFires



www.tancgc.gov.uk

CYLCHGRAWN CALON TÂN - MEHEFIN 2024